

**Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C**  
14 Tachwedd 2013, S4C, Llanisien, Caerdydd

**Cyfarfod Rhif 371**

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Glenda Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Sarah-Jane Pritchard	(Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)

## **Sylwadau agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

### **1. Datganiad o ddiddordeb**

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

### **2. Cofnodion cyfarfod 370 (17 Hydref 2013) a materion yn codi**

#### **2.1 Cofnodion cyfarfod 370**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 370.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

#### **2.2 Materion yn codi**

Nodwyd y canlynol:

##### **2.2.1 Cynllunio Strategol**

Nodwyd bod y swyddogion yn ceisio trefnu cyfarfod gyda Sue Owen, Ysgrifennydd Parhaol DCMS.

2.2.2 **Pobol y Cwm**

[**Crynodeb:** Rhoddodd DRh ddiweddariad ar y trafodaethau. Disgwylir adroddiad terfynol y BBC cyn diwedd fis Tachwedd.]

2.2.3 **Y Portffolio Eiddo**

[**Crynodeb:** Nodwyd y diweddaraf am adeilad a thir Lambourne Crescent.]

2.2.4 **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Nodwyd bod cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg wedi ei ohirio er mwyn rhoi amser i'r Archwilwyr Mewnol gwblhau nifer o adroddiadau. Bwriedir cynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Rhagfyr.

3. **Adroddiad y Cadeirydd**

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

3.2 **Ymweliad Ysgrifennydd Gwladol DCMS**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymweliad Ysgrifennydd Gwladol DCMS, Maria Miller, ag S4C yn ddiweddar. Roedd yn gyfarfod adeiladol a chyfeillgar a chafwyd cyfle i drafod nifer o faterion gan gynnwys llwyddiant **Y Gwyll**, y berthynas gydag Ymddiriedolaeth y BBC a newidiadau i remit S4C.

3.3 **Adrodd i Bwyllgor Perfformiad Ymddiriedolaeth y BBC**

Roedd HJ ac AE wedi cyflwyno'r adolygiad interim i Bwyllgor Perfformiad a Chynulleidfaoedd Ymddiriedolaeth y BBC a chafwyd croeso gan y Pwyllgor a chyfle i gael trafodaeth adeiladol a chefnogol. Nodwyd bod y Pwyllgor wedi gwerthfawrogi derbyn adroddiad cynhwysfawr wrth iddynt ystyried perfformiad S4C am y tro cyntaf o dan y Cytundeb Gweithredu, ac yn y dyfodol, byddai crynodeb interim yn ddigonol ar gyfer dibenion y Pwyllgor yn yr hydref.

Cafwyd trafodaeth am sawl agwedd o wasanaeth S4C gan gynnwys yr heriau y mae S4C yn eu hwynebu, llwyddiant **Y Gwyll**, pwysigrwydd gwasanaethau mynediad, presenoldeb arfaethedig S4C ar yr iPlayer, costau hawliau chwaraeon, trafodaeth am nifer o genres o raglenni a'r her o ddygymod gyda'r toriadau ariannol.

3.4 **Tŷ'r Arglwyddi**

[**Crynodeb:** Cynhaliwyd cyfarfod gyda nifer o Arglwyddi i roi diweddariad am faterion yn ymwneud ag ariannu hir dymor S4C.]

Nodwyd y byddai swyddogion yn cysylltu gyda'r Arglwyddi newydd o Gymru maes o law.

3.5 **Cynllunio Strategol**

[**Crynodeb:** Rhoddodd HJ ddiweddariad ar waith y tîm sy'n paratoui'r strategaeth.]

4. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

4.1 Cyflwynodd IHJ ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

4.2 **Amcanion Corfforaethol 2014**

Cyflwynodd IHJ yr Amcanion Corfforaethol diwygiedig ar gyfer 2014. Nodwyd bod yr amcanion corfforaethol wedi eu cyflwyno i staff S4C a bod aelodau'r Tîm Rheoli yn y broses o baratoi amcanion adrannol.

4.3 **Cydleoli/Adleoli**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd IHJ ddiweddariad ar y prosiect Adleoli a'r prosiect Cydleoli gyda BBC Cymru.]

4.4 **Prif Swyddog Cyllid**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd IHJ ddiweddariad ar ei gynlluniau ar gyfer sicrhau dilyniant o fewn yr adran Gyllid. Nodwyd penodiad Prif Swyddog Cyllid o ddechrau'r flwyddyn.]

4.5 **Youview**

Nodwyd bod y gwaith o baratoi ar gyfer cyflwyno gwasanaeth S4C i lwyfan Youview yn parhau, gyda'r bwriad i S4C lansio ar Youview ym mis Rhagfyr.

4.6 **Y Sector Gynhyrchu**

Nodwyd y byddai'r drefn o dderbyn rhaglenni ar ffurf ffeiliau electroneg yn dechrau ddiwedd chwarter cyntaf 2014, gyda thapiau yn cael eu derbyn mewn amgylchiadau eithriadol yn unig ar ôl y dyddiad hwn. Gobeithir y bydd y drefn newydd yn symleiddio'r broses o gyflenwi rhaglenni a chreu arbedion ariannol i'r cwmnïau cynhyrchu ac S4C maes o law.

4.7 **Cyflwyniad i gyfarfod blynyddol TAC**

Roedd IHJ wedi rhoi cyflwyniad i gyfarfod blynyddol TAC a chafwyd cyfle i amlinellu'r newidiadau i'r drefn gomisiynu a chafwyd ymateb gadarnhaol oddi wrth y cwmnïau cynhyrchu. Penderfynwyd y dylid dosbarthu copi o gyflwyniad IHJ i'r Aelodau.

5. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig a thrafodwyd meysydd Drama, Adloniant a Ffeithiol gan gyfeirio at raglenni Sul y Cofio a pherfformiad **Y Gwyll** yn benodol.]

6. **Adroddiad Ymchwil Misol**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymchwil Misol.

[**Crynodeb:** Nodwyd bod y gwaith ar gyfer adrodd ar wasanaeth **Clic** yn parhau.]

7. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

7.1 Cyflwynodd GLL ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriodd at y Materion isod:

**7.2 Hyrwyddo a Marchnata**

Nodwyd mai ymgyrch marchnata **Y Gwyll** oedd blaenoriaeth bresennol yr adran. Roedd ceisio cyrraedd gwylwyr newydd a gwylwyr ysgafn yn rhan allweddol o'r prosiect.

Nodwyd y bydd y noson gwylwyr nesaf yn cael ei chynnal yng Nghaerffili ar 18 Tachwedd.

**7.3 Partneriaethau**

Esboniodd GLL bod yr adran yn datblygu nifer sylweddol o bartneriaethau newydd a nodwyd bod yr Adran Gynnwys hefyd yn gyfrifol am ddatblygu ac arwain nifer o'r prosiectau sy'n deillio o'r partneriaethau newydd.

**7.4 Y Prosiectau Adleoli**

[**Crynodeb:** Nodwyd bod yr ardaloedd bellach wedi sefydlu timau prosiect i gydlynu eu cynlluniau. Penderfynwyd trefnu i'r Awdurdod ymweld â'r ardaloedd er mwyn derbyn cyflwyniadau am eu cynlluniau cyn i'r swyddogion gyflwyno'r papurau ac argymhellion adleoli i'r Awdurdod ym mis Mawrth.]

**8. Y Broses Gwynion Ddiwygiedig**

Nodwyd bod gwaith ar y broses gwynion ddiwygiedig yn parhau a phenderfynwyd y byddai swyddogion yn cyflwyno drafft pellach o'r broses yn seiliedig ar arweiniad yr Awdurdod yn ei gyfarfod diwethaf i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth ym mis Tachwedd.

**9. Adroddiad Ariannol**

9.1 Cyflwynodd KM yr adroddiad ariannol a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

9.2 Nodwyd bod trafodaethau gyda DCMS ynglŷn â chyfnod ariannol 15 mis yn parhau a bod swyddogion y DCMS yn ystyried sut i adrodd yn fewnol i'r Trysorlys am wariant S4C dros y cyfnod 15 mis. Bydd swyddogion hefyd yn trafod y trefniadau angenrheidiol ar gyfer y newid gyda'r archwilwyr allanol.

Penderfynwyd y byddai swyddogion yn cyflwyno argymhelliad i'r Awdurdod er mwyn symud i gyfnod 15 mis o 1 Ionawr 2013 ac yna i flynyddoedd ffisgal o 1 Ebrill 2014.

9.3 Cafwyd trafodaeth am y gyllideb ar gyfer 2014-15 ac esboniwyd bod swyddogion yn paratoi cyllideb ar gyfer Ionawr - Mawrth 2014 i'w gyflwyno i'r Awdurdod ar gyfer ei gymeradwyaeth ym mis Rhagfyr, ac y byddai cyllideb ar gyfer blwyddyn ffisgal 2014 - 15 yn cael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth yr Awdurdod cyn diwedd fis Mawrth 2014.

**10. Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol (a gynhaliwyd ar 16 Hydref)**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd CB ei hadroddiad o gyfarfod y Bwrdd Masnachol. Yn ogystal â'r hyn a drafodwyd cafwyd cyflwyniad gan gwmni Dolphin parthed incwm hysbysebu S4C a nodwyd y bydd adolygiad o fuddsoddiadau'r Cronfeydd Digidol a Chyd-gynhyrchu pob 6 mis o hyn allan.]

11. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth a Gwifren Gwylwyr**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd yr adroddiad cwynion.]

Nodwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr.

12. **Ystyried cynnwys a ffurf y Diwrnod i Draford**

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am gynnwys a ffurf y diwrnod i draford ym mis Ionawr.]

13. **Unrhyw fater arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Rhagfyr 2013 yng Nghaerdydd.